"Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan"

# Neuadd Gymunedol Maenclochog

Cynhelir y **76ain**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

## Dydd Llun 6ed o Fai 2024

i ddechrau am 1 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 2 o'r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn
dechrau cyn 5 o'r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : MELERI JENKINS B.A,M.A, Bryste

BEIRNIAID
Cerdd: JOY CORNOCK-THOMAS, BMus
Llefaru a Llên: TERWYN TOMOS, Llandudoch
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
07891 593449
Mynediad: Oedolion - £5.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 01437 532431
Carol Nicholas, 1 Castle View, Arberth
07971 073864

BYDD LLUNIAETH AR WERTH

## CYSTADLAETHAU LLEOL - Dyddiad Cau 29 Mawrth, 2024

*Cyfyngedig i blant ysgolion Beca, Brynconin, Casmael, Llanychllwydog a Maenclochog.*

| | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| Disgyblion blwyddyn 2 ac iau: Rhyddiaith - 'Diwrnod Penblwydd' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 3 a 4: Rhyddiaith - Cwmni'r Anifeiliaid' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 5 a 6: Rhyddiaith - 'Ar goll' | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 2 ac iau: Gwaith Celf - Testun: 'Egni' | Tarian | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 3 a 4: Gwaith Celf - Testun: 'Egni' | Tarian | Tarian | Tarian |
| Disgyblion blwyddyn 5 a 6: Gwaith Celf - Testun: 'Egni' | Tarian | Tarian | Tarian |

## FFOTOGRAFFIAETH i Blant yn unig

| | | | |
|---|---|---|---|
| Agored i blant ysgol gynradd - Testun: Egni (2 gais yn unig) | Tarian | Tarian | Tarian |
| Agored i blant ysgol uwchradd - Testun: Egni (2 gais yn unig) | £12 | £7 | £4 |

## LLWYFAN

*Cyfyngedig i blant ysgolion Beca, Brynconin, Casmael, Llanychllwydog a Maenclochog.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** Unawd i blant dan 7 oed. Cwpan Her - (Rhoddedig gan blant y Parchg a Mrs Moelwyn Daniel) | Cwpan Her | Tarian | Tarian |
| **2.** Llefaru i blant dan 7 oed. Cwpan Her - (Rhoddedig gan blant y Parchg a Mrs Moelwyn Daniel) | Cwpan Her | Tarian | Tarian |
| **3.** Unawd i blant dan 10 oed sydd heb ennill o`r blaen. | Tarian Her | Tarian | Tarian |
| **4.** Llefaru i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen. | Tarian Her | Tarian | Tarian |

## AGORED

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **5.** | Unawd dan 7 oed | £10 | £5 | £3 |
| **6.** | Llefaru dan 7 oed | £10 | £5 | £3 |
| **7.** | Unawd 7-9 oed | £10 | £5 | £3 |
| **8.** | Llefaru 7-9 oed | £10 | £5 | £3 |
| **9.** | Unawd 10-12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **10.** | Llefaru 10-12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **11.** | Llefaru i ddysgwyr dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **12.** | Unawd Alaw Werin dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| 13. | Darllen o'r Ysgrythur dan 12 oed<br>(Darn byr o unrhyw un o'r Beiblau Lliw)<br>Noddir gan Y Parchg Huw George | Tarian Her<br>a £20 | £5 | £3 |
| **14.** | Canu Emyn dan 12 oed | £10 | £5 | £3 |
| **15.** | Unawd ar unrhyw offeryn cerdd<br>i blant dan 12 oed (dim mwy na 3 munud o hyd) | £10 | £5 | £3 |
| **16.** | Parti Canu (o leiaf 4 unigolion) dan 18 oed | £20 | £15 | |
| **17.** | Unawd 12-16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **18.** | Llefaru 12-16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **19.** | Unawd Cerdd Dant dan 16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **20.** | Deuawd dan 16 oed | £12 | £7 | £4 |
| **21.** | Unawd Alaw Werin 12-18 oed | £12 | £7 | £4 |
| **22.** | Canu Emyn 12-18 oed | £12 | £7 | £4 |
| **23.** | Unawd ar unrhyw offeryn cerdd 12-18 oed,<br>(dim mwy na 5 munud o hyd) | £12 | £7 | £4 |
| **24.** | Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd,<br>dros 15 oed | £20 | £12 | £4 |
| **25.** | Darn heb atalnodi | £12 | £7 | £4 |
| **26.** | Cystadleuaeth Perfformio Cymdeithas<br>Eisteddfodau Cymru 2023-2024:<br>Mewn Cymeriad<br>*Cyfle i unigolyn rhwng 16-25 oed i bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud wedi'i selio ar ddewis o 2 sgript: Owain Glyndwr neu Cranogwen. Am fwy o wybodaeth ewch i steddfota.cymru* | £30 | £15 | - |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **27.** | Unawd yr Hen Ganiadau dros 15 oed | £15 | £10 | £5 |
| **28.** | Her Adroddiad dros 15 oed | Cwpan Her a £25 | £12 | £8 |
| **29.** | Her Unawd dros 15 oed | Cwpan Her a £25 | £12 | £8 |
| **30.** | Parti o oedolion i lafarganu detholiad o bennod 'Y Pwnc' | £20 | - | - |
| **31.** | Parti heb fod o dan 12 o leisiau a thros 15 oed i ganu **<u>dau</u>** ddarn cyferbyniol. Cynhelir ar ôl y Cadeirio **(Gweler amod 13)** | £100 | £50 | - |
| **32.** | Parti cydadrodd - agored | £20 | £10 | - |
| **33.** | Pedwarawd - agored | £20 | £10 | - |
| **34.** | Canu Emyn dros 18 oed | £20 | £10 | £5 |
| **35.** | Cyfansoddi tôn ar gyfer y geiriau isod **(Gweler amod 7)** | Tlws Coffa Penfro Rowlands | - | - |

## ***Tarian Nest***

*Rhoddir y darian her uchod ynghyd â £20.00 er cof am Nest Llwyd, i'r cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed.*

## ***Tlws Roger Hill***

*Rhoddir y tlws her uchod gan staff Parc Cenedlaethol safle Cilrhedyn er cof am gydweithwr, i offerynnwr disgleiriaf yr Eisteddfod dan 18 oed.*

O! chwalwn y muriau enwadol,
A chasglwn y cerrig ynghyd,
Mae angen creu llwybyr o'r nefoedd
Yn syth at drigolion y byd.
Rhown heibio cul gerrig enwadaeth,
Mae neges bwysicach ar gael -
Mae'r Duw sydd yn darpar yn dewis
Rhoi gobaith i'r gwan ac i'r gwael.

O! chwalwn y muriau enwadol,
Mae'r meini yn werthfawr o hyd,
Mae angen creu cysgod o'r credo,
Troi'r holl ddamcaniaethau yn stryd.
Gwahoddwn y seiri ysbrydol
I'n codi ni oll ar ein traed
I ddweud am faen tramgwydd yr oesau,
A chonglfaen Duw yn y gwaed.

O! chwalwn y muriau enwadol,
Cydweithiwn - a hithau yn ddydd,
Rhown heibio yr hen ddiwinyddiaeth,
A chodwn i arddel y ffydd.
Rhown garreg ar garreg mewn gobaith,
Cyhoeddwn fod Iesu yn ben,
A chwalwn y muriau enwadol
Yn enw'r Gwaredwr - Amen!

Parchg Huw George
Clunderwen

## LLENYDDIAETH

**36.** Cystadleuaeth y Gadair.
Cerdd gaeth neu rydd (neu ddilyniant o gerddi) heb fod dros 100 llinell ar **un** o'r testunau canlynol: (1) Gobaith; (2) Cyfeillion;
Cadair fechan a £50 (rhoddir Y Gadair er cof am Glyn Gibby)

**37.** Stori fer heb fod dros 2000 o eiriau ar y testun: 'Enwogrwydd'
Tlws Coffa E Llwyd Williams

**38.** Tlws y Llenor Ifanc (oed ysgol uwchradd).
Darn o lenyddiaeth mewn unrhyw gyfrwng addas i'w gynnwys mewn ffolio ysgol.
**(Gweler amod 9)**
Tlws a thocyn llyfr £25

**39.** Emyn ar y thema 'Cymod'
Tlws

**40.** Erthygl addas i'w chyhoeddi yn mhapur bro heb fod dros 750 o eiriau.
Tocyn llyfr £25.
Rhoddedig gan *Clebran* Papur Bro'r Preseli.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **41.** Telyneg neu soned:<br>(1) Castell; (2) Cyffro. | £15 | £10 | - |
| **42.** Englyn - 'Penrhos' - y bwthyn tô gwellt. | £15 | £10 | - |
| **43.** Brawddeg: C-A-S-F-U-W-Ch | £15 | £10 | - |
| **44.** Limrig yn dechrau â'r llinell:<br>*Rhyw grwt bach o'r enw Rheinallt* | £10 | £5 | - |
| **45.** Dysgwyr (oedolion) sydd heb fod yn dysgu Cymraeg am fwy na 4 blynedd. (Mynediad / Sylfaen)<br>Ysgrifennu hyd at 200 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol:<br>(1) Sgwrs rhwng dau berson mewn caffi<br>(2) Amser sbâr<br>*Dim mwy na 2 gynnig* | Tocyn llyfr £15 | Tocyn llyfr £10 | |
| **46.** Dysgwyr (oedolion) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am dros 4 blynedd. (Canolradd / Uwch)<br>Ysgrifennu hyd at 250 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol:<br>(1) Pethau gorau am eich ardal chi<br>(2) Manteision o ddysgu Cymraeg<br>*Dim mwy na 2 gynnig* | Tocyn llyfr £15 | Tocyn llyfr £10 | |

## ***Cwpan Coffa Mr a Mrs Titus Lewis***

*Rhoddir y cwpan uchod i'r sawl a ddyfernir yn gystadleuydd disgleiriaf yr Eisteddfod (Canu neu Lefaru), i'w ddal am flwyddyn yn unig.*
***Bydd yr enillydd yn derbyn £40 hefyd i'w gynorthwyo gyda'i wersi***

*Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae'n ddyletswydd i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost) yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys cystadleuwyr, beirniaid, cyfeilyddion a chyfranwyr. Os ydych chi'n dymuno i ni ddileu eich manylion o'n cofnodion, cysylltwch.*

## NODDWYR 2023

**Cyfraniadau wrth Aelodau Tabernacl**

Eirwyn a Maureen George
Carol a Keith Gibby a'r teulu
Eleri Hunt
Sheila ac Islwyn Vaughan
Lewys ac Aneurin Dafydd
Hafwen ac Andy Thomas
Non Roberts
Parch Ken ac Eirianwen Thomas
Cei Nicholas
Carol Nicholas
Hefin Wyn
Glyn ac Angie John
Rhiannon Edwards
Buddug a Geraint Harries
Eirwen Gibby
Reg ac Eiry Phillips
Marina a Berwyn Williams

**Cyfraniadau wrth Aelodau Llandeilo**

Teulu Llwyncelyn
Wendy Edwards a'r teulu
Malcolm Evans
Carolyn Lloyd
Gareth Edwards
Brenda Williams
Nigel a Julie Thomas
Mary Llewellyn
Eifion Evans
Eirwyn Evans
Dennis a Gina Lewis
Alun Davies
Michael a Delyth Roblin
Ian ac Ann Lewis
Amanda Quigley
Wyn a Catrin Williams a'r plant
Hywel Evans
Caryl James
Pam Jones

**Cefnogwyr Eraill**

Menter Iaith Sir Benfro
Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
Cyngor Cymuned Maenclochog
Cyngor Cymuned Mynachlogddu
Cymdeithas Waldo
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Cyngor Sir Penfro-cystadleuthau'r Dys-gwyr
Clebran
Y Llywydd - Ann Morris
Sarah Eynon
Sara Grim
Ken a Ceri Davies
Geoffrey Eynon
Gareth a Marina Nicholas
Awen Evans
Merched Y Bryn, Brynberian
Meredydd George
Siop Sian
Huw George
Julie Young (Y Gadair)

## ARWEINYDDION

Mr Edryd Eynon, Miss Angharad Edwards, Mrs Delun Horton,
Mrs Caryl James, Mrs Naomi Nicholas-Jones

## SWYDDOGION Y PWYLLGOR

*Cadeirydd:* Ms Brenda Williams, Llysyfrân
*Trysorydd:* Mrs Non Roberts, Maenclochog
*Is-Drysorydd:* Mrs Wendy Edwards, Maenclochog

## AMODAU

1. Bydd barn y pwyllgor yn derfynol a bydd gan y beirniaid hawl i atal neu rannu gwobrau.
2. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
3. Y cyfansoddiadau i fod yn waith gwreiddiol yr ymgeiswyr a heb eu cyhoeddi.
4. Y cyfansoddiadau i fod mewn copi caled i'r ysgrifenyddes Llên Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, Clunderwen, SA66 7XN erbyn 31 Mawrth 2024. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith, gan amgáu enw, cyfeiriad llawn a rhif ffôn mewn amlen dan sêl.
5. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamweiniau na cholledion a all ddigwydd yn ystod yr Eisteddfod.
6. Bydd hawl gan y pwyllgor i newid trefn y cystadlaethau ar y llwyfan os bydd angen.
7. Cyfansoddiadau y gystadleuaeth Rhif 35 i`w cyflwyno ar bapur.
8. Rhaid anfon copi o unawdau cystadlaethau rhif 24, 27 a 29 i`r cyfeilydd ymlaen llaw.
9. Ni chaniateir mwy na **dwy** ymgais gan yr un cystadleuydd.
10. Bydd hawlfraint y dôn fuddugol (Rhif 35) yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.
11. Bydd hawlfraint yr emyn buddugol (Rhif 39) yn eiddo i Bwyllgor yr Eisteddfod.
12. Atelir pris tocyn oni bydd y buddugol neu gynrychiolydd yn bresennol.
13. Bydd disgwyl i bob cor i dalu £40 er mwyn gallu cystadlu. Ni fydd disgwyl i aelodau'r cor i dalu mynediad wrth y drws.

*Dymuna`r Pwyllgor ddiolch i*
*'Ymddiriedolaeth James, Pantyfedwen', am y swm o £292 tuag at yr Eisteddfod.*
*Diolch hefyd i bawb sy`n cyfrannu at lwyddiant yr Eisteddfod yn flynyddol.*

**Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru**

**Eisteddfodau Sir Benfro - 2024**

Eisteddfod Brynberian - 17 Chwefror - Ceri Davies, (01239 891296)
Eisteddfod Llandudoch - 18 Mai - Terwyn Tomos, (01239 612928 / 07972 033183)